office of the independent adjudicator

'for students in higher education'

# Y Fframwaith Arfer Da:

## *Addasrwydd i ymarfer*

Hydref 2019

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhestr astudiaethau achos | 4 |
| Rhagarweiniad | 5 |
| Beth yw addasrwydd i ymarfer? | 6 |
| Gwybodaeth ar gyfer ymgeiswyr | 8 |
| Rhoi cymorth i'r myfyriwr i gyflawni addasrwydd i ymarfer | 9 |
| **Materion iechyd ac anabledd** | 9 |
| **Enghreifftiau o addasiadau rhesymol** | 10 |
| **Canllawiau ar gyfer ystyried materion iechyd ac anabledd** | 12 |
| Gweithdrefnau da ar gyfer addasrwydd i ymarfer | 13 |
| **Iaith blaen** | 13 |
| **Tegwch gweithdrefnol** | 13 |
| **Cyfrinachedd ac anhysbysrwydd** | 13 |
| **Baich prawf** | 14 |
| **Safon prawf** | 14 |
| **Prydlondeb** | 15 |
| **Cymorth a chynrychiolaeth** | 15 |
| **Addasiadau rhesymol i'r broses** | 16 |
| **Perthynas â gweithdrefnau eraill** | 16 |
| **Cymorth i astudio** | 17 |
| **Ymddygiad sy'n gyfystyr â throsedd dan y gyfraith** | 18 |
| **Lleoliadau gwaith** | 19 |
| **Dyfarniad proffesiynol** | 20 |
| **Cadw cofnodion** | 21 |
| Y broses | 22 |
| **Cam rhagarweiniol / achos pryder** | 22 |
| **Pan fo angen gweithredu ar unwaith yn ystod ymchwiliad addasrwydd i ymarfer** | 23 |

# Parhad o’r cynnwys

| | |
|---|---|
| **Y cam ffurfiol** | **23** |
| **Ymchwiliadau’r cam ffurfiol** | **23** |
| **Gwrandawiadau panel addasrwydd i ymarfer** | **24** |
| **Perthnasedd canfyddiadau o gamymddwyn neu addasrwydd i ymarfer blaenorol** | **26** |
| **Deilliannau ac amodau a osodir gan baneli addasrwydd i ymarfer** | **27** |
| **Dod â’r cam ffurfiol i ben** | **28** |
| **Y cam apêl** | **29** |
| **Dod â’r cam apêl i ben** | **30** |
| Adolygiad allanol annibynnol (SDA) | **30** |
| Adnoddau defnyddiol a chyfeiriadau at ddogfennau mewn troednodyn | **31** |

# Rhestr astudiaethau achos

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys nifer o astudiaethau achos sy'n dangos enghreifftiau o arfer da.


| | |
|---|---|
| Astudiaeth Achos 1<br>**Iechyd ac anabledd** | **11** |
| Astudiaeth Achos 2<br>**Iechyd ac anabledd** | **11** |
| Astudiaeth Achos 3<br>**Cynrychiolaeth** | **16** |
| Astudiaeth Achos 4<br>**Camymddwyn academaidd ac addasrwydd i ymarfer** | **17** |
| Astudiaeth Achos 5<br>**Cymorth i astudio ac addasrwydd i ymarfer** | **18** |
| Astudiaeth Achos 6<br>**Achosion troseddol ac addasrwydd i ymarfer** | **19** |
| Astudiaeth Achos 7<br>**Lleoliadau gwaith** | **20** |
| Astudiaeth Achos 8<br>**Gweithdrefnau ar gyfer addasrwydd i ymarfer** | **26** |
| Astudiaeth Achos 9<br>**Pryderon blaenorol o ran addasrwydd i ymarfer** | **27** |
| Astudiaeth Achos 10<br>**Canlyniad y broses addasrwydd i ymarfer** | **28** |

# Rhagarweiniad

**1.** Mae'r Fframwaith Arfer Da: ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd yn gosod egwyddorion craidd ac arfer gweithredol da ar gyfer darparwyr addysg uwch yng Nghymru a Lloegr. Yr egwyddorion craidd yw: **hygyrchedd**; **eglurder**; **cymesuredd**; **prydlondeb**; **tegwch**; **annibyniaeth**; **cyfrinachedd**; a **gwella profiad myfyrwyr**.

**2.** Mae'r rhan fwyaf o gyrff proffesiynol yn gwneud addasrwydd i ymarfer yn ofyniad ar gyfer cofrestru i ymarfer. Bydd yr union ofynion ar gyfer addasrwydd i ymarfer yn amrywio o gorff i gorff. Dylai fod gan ddarparwyr addysg uwch sy'n rhedeg cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau proffesiynol weithdrefnau ar waith sy'n sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw bryderon ynghylch addasrwydd myfyriwr i ymarfer yn deg, yn brydlon ac yn gymesur.

**3.** Mae'r adran hon o'r Fframwaith Arfer Da yn rhoi arweiniad o ran arfer da i ddarparwyr wrth gynllunio gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer ac wrth ymdrin ag achosion unigol. Y bwriad yw helpu darparwyr i drin eu myfyrwyr yn deg, nid darparu atebion i'r hyn sy'n aml yn gwestiynau cymhleth yn ymwneud â barn broffesiynol.

**4.** Dylid darllen yr adran hon ar y cyd â'r Adran gweithdrefnau disgyblu, sy'n disgrifio egwyddorion tegwch gweithdrefnol. Fodd bynnag, mae proses addasrwydd i ymarfer yn wahanol i broses ddisgyblu. Nid cosbi'r myfyriwr am gamwedd yw pwrpas proses addasrwydd i ymarfer. Y nod yw sicrhau diogelwch y myfyriwr a'r rheiny sydd o'u cwmpas, gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd, yn ogystal â diogelu hyder y cyhoedd yn y proffesiwn. Dylai'r broses fod yn gefnogol hyd yn oed os yw'r canlyniad yn golygu na all y myfyriwr barhau â'i astudiaethau.

**5.** Rhestrir y dogfennau y cyfeirir atynt yn yr adran hon o'r Fframwaith Arfer Da, a ffynonellau arweiniad defnyddiol eraill, o dan Adnoddau Defnyddiol ar ddiwedd yr adran. Er bod y dogfennau a'r canllawiau y cyfeiriwn atynt yn ymwneud â gwahanol broffesiynau, credwn fod yna egwyddorion cyffredinol sy'n berthnasol i unrhyw achos addasrwydd i ymarfer.

# Beth yw addasrwydd i ymarfer?

**6.** Addasrwydd i ymarfer yw'r gallu i fodloni safonau proffesiynol; mae'n ymwneud â chymeriad, cymhwysedd proffesiynol ac iechyd. Yn ôl y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC), mae rhywun yn addas i ymarfer os oes ganddyn nhw'r "sgiliau, y wybodaeth, y cymeriad a'r iechyd i ymarfer eu proffesiwn yn ddiogel ac yn effeithiol"[1].

**7.** Mae gan ddarparwyr ddyletswydd i:

- sicrhau bod myfyrwyr ar gwrs proffesiynol yn addas i ymarfer yn y proffesiwn hwnnw, neu y byddan nhw pan fyddant yn cwblhau'r cwrs;
- amddiffyn cleifion, cleientiaid, defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau o'r cyhoedd, heddiw neu yn y dyfodol;
- diogelu hyder y cyhoedd yn y proffesiwn;
- cydymffurfio â gofynion cyrff proffesiynol/rheoleiddio; a
- sicrhau nad yw myfyrwyr yn ennill cymhwyster sy'n caniatáu iddynt ymarfer proffesiwn os nad ydyn nhw'n addas i wneud hynny.

Lle mae gan ddarparwyr bryderon am fyfyriwr sydd eisoes yn aelod cofrestredig o broffesiwn, yna mae ganddynt gyfrifoldeb i godi'r pryderon hynny gyda'r corff proffesiynol perthnasol, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a/neu gyflogwr y myfyriwr.

**8.** Mae gan wahanol broffesiynau systemau a strwythurau rheoleiddio gwahanol a gwahanol lwybrau at gymhwyso ac ymarfer. Mae gan rai proffesiynau gorff proffesiynol a rheolydd ar wahân. Mae hyn yn golygu bod darparwyr yn debygol o fod â gwahanol lefelau o gyfrifoldeb am sicrhau addasrwydd i ymarfer ar gyfer yr amrywiaeth o gyrsiau proffesiynol y maent yn eu cynnig.

**9.** Bydd gan y darparydd berthynas agos â'r corff neu'r rheoleiddiwr proffesiynol, a fydd fel arfer yn gosod rhai gofynion ar gyfer strwythur a chynnwys y cwrs. Efallai y bydd angen i gyrff proffesiynol gymeradwyo rhai gofynion craidd neu orfodol ar gyfer cynnwys cwrs, gosod meini prawf asesu, a chynnal arolygiadau. Gallant ofyn i'r darparydd ardystio (o leiaf) bod y myfyriwr nid yn unig wedi cyflawni meini prawf asesu'r darparydd, ond ei fod hefyd yn unigolyn dibynadwy ar ddiwedd y cwrs. Mae cyrff proffesiynol fel arfer yn cyhoeddi canllawiau i ddarparwyr a myfyrwyr ynghylch materion addasrwydd i ymarfer. Dylai darparwyr dalu sylw manwl i'r canllawiau hynny, a sicrhau bod eu myfyrwyr yn gwybod amdanynt ac yn eu deall.

---

1 Addasrwydd i ymarfer y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (mae'r ddogfen hon a rhai eraill y cyfeirir atynt wedi'u rhestru ar ddiwedd y ddogfen hon).

**10.** Mae enghreifftiau o faterion a allai arwain at bryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer, os yw'n debygol fod gallu'r myfyriwr i gydymffurfio â safonau proffesiynol wedi cael ei amharu, yn cynnwys:

- camymddwyn academaidd (er enghraifft llên-ladrad, twyllo mewn arholiadau, ffugio cofnodion);
- troseddau disgyblu eraill (er enghraifft ymddygiad gwrthgymdeithasol, ymosodol neu fygythiol, camymddwyn rhywiol, trais, bwlio neu aflonyddu, difrod i eiddo, defnydd amhriodol o'r rhyngrwyd, cam-drin sylweddau/alcohol);
- torri rheolau iechyd a diogelwch;
- methu â datgelu euogfarnau neu wybodaeth arall y mae'n ofynnol i'r myfyriwr ei datgelu;
- ffugio dogfennaeth yn perthyn i leoliad gwaith;
- ymarfer anniogel, anghymhwyster neu angen gormod o oruchwyliaeth;
- ymddygiad amhroffesiynol, yn cynnwys:
  - diffyg parch, agwedd ymosodol neu wael, diogi;
  - diffyg disgyblaeth, methu â dilyn cod gwisg, defnydd amhriodol o ffôn symudol, cadw amser gwael, presenoldeb gwael;
  - methu ag adlewyrchu, diffyg mewnwelediad;
  - methu ag ymgysylltu ag ymchwiliadau i ymddygiad amhroffesiynol;
  - hunanreolaeth wael, diffyg atebolrwydd personol;
  - anonestrwydd;
  - torri cyfrinachedd cleifion;
- ymddygiad i ffwrdd o astudiaethau'r myfyriwr, gan gynnwys:
  - euogfarn droseddol, e.e. trosedd dreisgar; trosedd anonestrwydd;
  - ymddygiad aflonyddgar yn y gymuned;
  - defnydd amhriodol o gyfryngau cymdeithasol:
- pryderon o ran diogelu;
- iechyd meddwl neu gorfforol gwael neu nam corfforol difrifol sy'n ymyrryd â gallu'r myfyriwr i ymarfer yn ddiogel (gweler yr adran ar faterion Iechyd ac Anabledd isod);
- methu â cheisio cymorth neu ymgysylltu â gwasanaethau priodol ynghylch materion iechyd; a
- cyfathrebu gwael neu ddiffyg sgiliau iaith.

# Gwybodaeth ar gyfer ymgeiswyr

**11.** Fel y dengys yr enghreifftiau hyn, gall pryderon ynghylch addasrwydd myfyriwr i ymarfer godi ar unrhyw adeg drwy gydol astudiaethau'r myfyriwr. Dylai darparwyr sicrhau bod yr holl staff a allai fod yn ymwybodol o unrhyw un o'r materion hyn yn ymwybodol o'r posibilrwydd o oblygiadau addasrwydd i ymarfer i fyfyrwyr ar gyrsiau proffesiynol.

**12.** Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) yn cyhoeddi canllawiau sy'n berthnasol i nyrsys a bydwragedd cymwysedig sy'n rhoi enghraifft ddefnyddiol o egwyddorion addasrwydd i ymarfer. Mae dolen i'r canllawiau hyn, ynghyd â dolenni i ganllawiau gan gyrff proffesiynol eraill, i'w gweld yn adran Adnoddau Defnyddiol y ddogfen hon.

**13.** Dylai darparwyr nodi gofynion proffesiynol y cwrs yn glir yn y wybodaeth sydd ar gael i fyfyrwyr pan fyddant yn ymgeisio am le ar y cwrs ac wrth iddynt gael eu sefydlu arno. Dylai hyn gynnwys unrhyw wybodaeth y bydd angen i'r myfyriwr ei datgelu pan fydd yn gwneud cais neu cyn y gall fynd ar leoliad gwaith. Gall y wybodaeth hon gynnwys:

- a oes gan y myfyriwr euogfarnau blaenorol perthnasol? Bydd p'un a yw'r euogfarn yn berthnasol yn dibynnu ar y cwrs, a natur y ddedfryd a phryd y digwyddodd yr euogfarn;
- unrhyw bryderon diogelu, gan gynnwys pryderon ynghylch aelodau agos o'r teulu;
- a ganfuwyd yn flaenorol nad oedd y myfyriwr yn addas i ymarfer?
- a oes gan y myfyriwr nam corfforol, meddyliol neu wybyddol neu gyflwr iechyd a allai fod yn berthnasol i'w allu i gyflawni'r gofynion proffesiynol angenrheidiol?
- unrhyw faterion eraill sy'n gysylltiedig ag iechyd, megis a yw'r myfyriwr wedi cael yr imiwneiddiadau angenrheidiol; ac
- unrhyw wybodaeth berthnasol am ei hanes personol, er enghraifft, myfyrwyr gwaith cymdeithasol sydd wedi bod yn ddefnyddiwr gwasanaethau gofal cymdeithasol.

**14.** Dylai darparwyr ddweud wrth fyfyrwyr ble y gallant fynd am gyngor ynghylch pa wybodaeth y gallai fod angen iddynt ei datgelu, a deilliannau posibl peidio â datgelu gwybodaeth berthnasol.

**15.** Pan fydd myfyriwr yn datgelu gwybodaeth i'r darparydd yn ystod y broses ymgeisio, mae'n bwysig bod y darparydd yn ystyried y wybodaeth honno ac yn penderfynu a fydd yn effeithio ar addasrwydd y myfyriwr i ymarfer, neu'r gefnogaeth y bydd ei hangen arno, ymhell cyn i'r myfyriwr ddechrau ei astudiaethau.

**16.** Mewn rhai achosion, efallai y bydd darparydd yn gallu rhoi mwy o gefnogaeth i fyfyriwr anabl na'r hyn a allai fod ar gael yn y gweithle. Gallai hynny olygu y gall y darparydd roi mwy o gymorth i'r myfyriwr i gyflawni'r safonau proffesiynol ac academaidd angenrheidiol, ond efallai na fydd yn gallu ymarfer oherwydd na ellir diwallu ei anghenion cymorth yn y gweithle. Os yw'r darparydd yn gwybod y gallai hyn fod yn broblem, dylai egluro i'r myfyriwr yn ystod y cam ymgeisio bod risg na fydd yn gallu ymarfer ei broffesiwn, fel y gall wneud dewis gwybodus ynghylch a ddylai gychwyn ar ei astudiaethau.

# Rhoi cymorth i'r myfyriwr i fod yn addas i ymarfer

**17.** Mae gan ddarparwyr rôl bwysig wrth gynorthwyo myfyrwyr i fod yn addas i ymarfer, gan sicrhau bod myfyrwyr yn deall pam mae'r safonau proffesiynol yn bwysig a beth mae hyn yn ei olygu iddyn nhw.

**18.** Yn ogystal â rhoi gwybodaeth i fyfyrwyr am yr hyn y mae angen iddynt ei ddatgelu pan fyddant yn gwneud cais, dylai darparwyr ddwyn i sylw myfyrwyr, yn gynnar iawn yn y broses, y safonau ymddygiad disgwyliedig, a deilliannau gweithredu'n groes i'r safonau hynny. Gellir nodi hyn mewn codau ymddygiad, siarteri myfyrwyr a chanllawiau'r corff proffesiynol perthnasol. Dylid gwneud myfyrwyr yn ymwybodol o'r rhain yn gynnar yn eu hastudiaethau, yn rheolaidd yn ystod y rhaglen, a chyn mynd ar leoliadau ymarferol mewn gweithle.

**19.** Dylai darparwyr sicrhau bod strwythurau cyrsiau yn cynnwys cyfleoedd i fyfyrwyr weithio drwy enghreifftiau o faterion addasrwydd i ymarfer, er enghraifft drwy chwarae rôl, fel eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer lleoliadau gwaith ymarferol.

**20.** Disgwylir i fyfyrwyr ymddwyn yn broffesiynol ac yn gymwys bob amser. Ond mae myfyrwyr sy'n methu â chyrraedd y safonau disgwyliedig o broffesiynoldeb a chymhwysedd yn gynnar yn eu hastudiaethau yn fwy tebygol o gael cyfle i wella eu hymddygiad na'r rhai sy'n agosáu at y diwedd. Mae rhai cymwysterau proffesiynol yn cynnwys gwahanol lefelau astudio, er enghraifft lefelau israddedig ac ôl-raddedig. Cyfrifoldeb y darparydd yw addysgu, hyfforddi, mentora a hybu myfyrwyr tuag at y safonau sy'n berthnasol ar bob lefel. Yr eithriad i hyn fyddai myfyriwr sydd eisoes wedi'i gofrestru'n aelod o broffesiwn ac sy'n astudio tuag at gymhwyster pellach yn y maes hwnnw. Byddai disgwyl i'r myfyrwyr hynny arddel safonau proffesiynol o ddechrau eu cwrs.

## Materion iechyd ac anabledd

**21.** Weithiau mae pryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer yn gysylltiedig ag iechyd meddwl neu gorfforol y myfyriwr, neu ag anabledd.

**22.** Dylai darparwyr fod yn ymwybodol o'u dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr anabl parthed darpariaeth, meini prawf neu arfer ac eithrio safon cymhwyster. Diffinnir safon cymhwysedd yn y Ddeddf Cydraddoldeb fel "safon academaidd, feddygol neu arall sy'n berthnasol at ddiben penderfynu a oes gan berson lefel benodol o gymhwysedd neu allu "[2].

**23.** Mae gan ddarparwyr gyfrifoldeb i sicrhau bod myfyrwyr yn cael cefnogaeth briodol yn ystod lleoliadau ymarferol. Dylai'r darparwyr gytuno â'r myfyriwr cyn i'r lleoliad gwaith ddechrau pa wybodaeth y gellir ei rhannu gyda'r gweithle i sicrhau bod cefnogaeth ar gael.

**24.** Os yw'n bosib bod y mater sy'n arwain at y pryder ynghylch addasrwydd i ymarfer yn gysylltiedig ag anabledd myfyriwr, dylai'r darparydd ystyried a oes angen cymorth ychwanegol ar y myfyriwr, ac a ddylai wneud addasiadau rhesymol i'r ffordd y mae'n asesu'r myfyriwr. Gallai hyn gynnwys

2 Deddf Cydraddoldeb 2010 Rhan 5, Pennod 1, Adran Cymwysterau 54

cytuno a threfnu cymorth ychwanegol ar gyfer y myfyriwr yn ei leoliad gwaith ymarferol. Dylai darparwyr ystyried pob achos yn unigol.

**25.** Dylai darparwyr ystyried pa dystiolaeth, os o gwbl, sydd ei hangen arnynt gan y myfyriwr fel y gallant asesu ei addasrwydd i ymarfer a chynnig cymorth iddo yn ei astudiaethau. Gallai hyn gynnwys tystiolaeth feddygol a/neu atgyfeiriad iechyd galwedigaethol. Dylai darparwyr gynorthwyo myfyrwyr i gael y dystiolaeth hon, er enghraifft, drwy eu cyfeirio at yr arbenigwr priodol a thalu am yr adroddiad lle mae hyn yn gymesur.

**26.** Mae'r rhan fwyaf o reoleiddwyr bellach yn darparu canllawiau cynhwysfawr am faterion iechyd ac anabledd, a allai fod yn berthnasol i'r berthynas rhwng y darparydd a'r myfyriwr. Er enghraifft, mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) a Chyngor yr Ysgolion Meddygol (MSC) yn cyhoeddi canllawiau ymddygiad proffesiynol ac addasrwydd i ymarfer, sy'n dweud:

"Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw cyflyrau iechyd ac anableddau yn effeithio ar addasrwydd myfyriwr meddygaeth i ymarfer, cyhyd â bod y myfyriwr yn:

- dangos mewnwelediad priodol;
- yn ceisio cyngor meddygol priodol; ac yn
- cydymffurfio â thriniaeth.

Rhaid i ysgolion meddygaeth wneud addasiadau, lle bo hynny'n bosibl, er mwyn caniatáu i fyfyrwyr gyflawni cymwyseddau craidd eu cwrs a'u galluogi i astudio a gweithio'n ddiogel mewn amgylchedd clinigol"[3].

**27.** Mae'n bosib y bydd darparydd yn gallu gwneud addasiadau i amgylchedd dysgu a gweithio'r myfyriwr, er mwyn ei gwneud hi'n bosibl i'r myfyriwr hwnnw gyrraedd safonau cymhwysedd. Mae canllawiau "Welcomed and valued" y GMC[4] yn darparu awgrymiadau ymarferol i ysgolion meddygaeth er mwyn gwneud eu cyrsiau'n fwy hygyrch i fyfyrwyr.

## Enghreifftiau o addasiadau rhesymol

Rhaid i ddarparwyr wneud addasiadau rhesymol i'r amgylchedd dysgu a dulliau asesu. (Nid oes unrhyw ofyniad i wneud addasiadau i safonau cymhwysedd.)

- Newidiadau i'r amgylchedd ffisegol i wella mynediad at gyfleusterau.
- Darparu neu ganiatáu i fyfyrwyr ddefnyddio offer cynorthwyol (fel stethosgop sy'n arddangos yn weledol) neu dechnoleg (fel meddalwedd arddweud).
- Addasiadau i ddysgu ac addysgu, gan gynnwys darparu gwybodaeth mewn sawl fformat.
- Addasiadau i arholiadau ac asesiadau ymarferol, e.e. amser ychwanegol neu ddarparu ysgrifennydd.
- Amser hyfforddi ychwanegol pan fo iechyd myfyriwr yn golygu na all gyflawni'r amcanion dysgu mewn pryd.
- Hyfforddiant hyblyg - ymestyn y rhaglen i ganiatáu llai o oriau gwaith ar leoliad yn y gweithle, fel y gall myfyriwr ag anabledd gydbwyso gwaith a gorffwys, gan barhau i gyflawni'r isafswm oriau ar leoliad sy'n ofynnol.

3 3 Y Cyngor Meddygaeth Cyffredinol (GMC) a Chyngor yr Ysgolion Meddygaeth (MSC) - Ymddygiad proffesiynol ac addasrwydd i ymarfer: canllawiau ar gyfer ysgolion meddygaeth a'u myfyrwyr (Cyhoeddwyd Mai 2016; daeth i rym 1 Medi 2016)

4 GMC Welcomed and Valued: Cynnig cymorth i ddysgwyr anabl mewn addysg a hyfforddiant meddygaeth

**28.** Mae gan ddarparwyr ddyletswydd ragflaenol i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr anabl. Dylai darparwyr weithio gyda myfyrwyr anabl a mudiadau pobl anabl wrth ystyried beth yw'r ffordd orau i gael gwared ar rwystrau i ddysgu. Pan fydd myfyrwyr yn meddwl y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt, mae'n bwysig iddynt ddweud wrth y darparydd. Er nad oes rhaid i fyfyrwyr ddweud wrth ddarparwyr am anabledd, dylai darparwyr sicrhau bod yna amgylchedd cefnogol sy'n eu hannog i wneud hynny; a bod myfyrwyr yn deall yr angen am fewnwelediad i'w cyflwr. Dylai darparwyr esbonio i fyfyrwyr bod angen iddynt ddweud wrth y darparydd a oes unrhyw beth a allai effeithio ar eu gallu i astudio neu i gyflawni cymhwysedd ac y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt, hyd yn oed os nad ydyn nhw am roi manylion am natur eu cyflwr.

## ASTUDIAETH ACHOS 1
Iechyd ac anabledd

Mae athro dan hyfforddiant yn dioddef o orbryder ac iselder. Mae'r darparydd yn cwrdd â'r hyfforddai i drafod yr hyn y gall ei wneud o ran cynnig cymorth yn ystod ei astudiaethau a thra'i fod ar ymarfer dysgu mewn ysgolion, a chytunir ar gynllun cymorth.

Mae'r athro dan hyfforddiant yn cael pwl o bryder yn yr ysgol lle mae ar ymarfer dysgu ac mae'r ysgol yn ei anfon adref. Mae'r darparydd yn cwrdd â'r myfyriwr i drafod yr hyn sydd wedi digwydd ac i weld a oes unrhyw bryderon o ran addasrwydd i ymarfer ynghylch iechyd y myfyriwr. Dywed y myfyriwr fod ei gwnselydd yn ei helpu i ddatblygu strategaethau ar gyfer rheoli'r gorbryder. Mae'r darparydd yn cytuno ar rywfaint o gymorth ychwanegol gyda'r myfyriwr a'r ysgol, ac mae'r myfyriwr yn parhau â'i astudiaethau.

## ASTUDIAETH ACHOS 2
Iechyd ac anabledd

Mae gan fyfyriwr deintyddiaeth yn ei drydedd flwyddyn ddyslecsia. Mae'r darparydd yn cytuno ar ystod o fesurau cymorth gan gynnwys amser ychwanegol mewn asesiadau, mentora ar gyfer astudio, cymorth llyfrgell a chopïau o ddeunyddiau darlithoedd ymlaen llaw.

Cyhuddwyd y myfyriwr o ddwyn arian o fag myfyriwr arall. Mae'r darparydd yn gweithredu o dan ei weithdrefnau disgyblaeth ac yn egluro i'r myfyriwr fod ganddynt bryderon hefyd am addasrwydd y myfyriwr i ymarfer. Mae'r myfyriwr yn gwadu dwyn yr arian ac yn rhoi'r bai ar fyfyriwr arall.

Yn y gwrandawiad disgyblu mae'r myfyriwr yn cyfaddef iddo ddwyn yr arian. Mae'r panel disgyblu yn dweud wrth y myfyriwr i ysgrifennu llythyr o ymddiheuriad ac i dalu'r arian yn ôl. Mae'n cyfeirio'r myfyriwr at broses addasrwydd i ymarfer y darparydd.

Mae panel addasrwydd i ymarfer y darparydd yn ystyried casgliadau'r panel disgyblu ac yn clywed gan y myfyriwr, sy'n dweud ei fod o dan gryn lawer o bwysedd oherwydd ei ddyslecsia. Mae'r panel yn penderfynu bod amhariad ar addasrwydd y myfyriwr i ymarfer oherwydd ei fod wedi ymddwyn yn anonest, ac yna wedi dweud celwydd am y peth. Mae'n penderfynu nad oedd cysylltiad rhwng y drosedd â dyslecsia'r myfyriwr.

## Canllawiau GMC ac MSC ar ystyried materion iechyd ac anabledd [5]

Yn ôl canllawiau a gyhoeddwyd gan y GMC a'r MSC:

"Mae myfyrwyr â chyflyrau iechyd - yn benodol, y rhai â chyflyrau iechyd meddwl - yn aml yn cael eu dynodi fel rhai sydd â phroblemau oherwydd eu bod yn ymddwyn yn amhroffesiynol, e.e. record bresenoldeb wael neu fethu ymgysylltu â'u hastudiaethau. Dylai ysgolion meddygaeth ddarparu hyfforddiant i'w staff er mwyn eu helpu i ddynodi, a hynny'n gynnar y broses, myfyrwyr y mae eu hymddygiad yn arwydd o broblem iechyd sylfaenol.

Gall ysgolion meddygaeth ddefnyddio prosesau pryderon lefel isel i ganfod a chynnig cymorth i fyfyrwyr â chyflyrau iechyd. Gallant hefyd ddefnyddio eu gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer lle bu ymdrech i wneud addasiadau a darparu cefnogaeth, ond yn aflwyddiannus. Gall y broses addasrwydd i ymarfer helpu myfyrwyr drwy sicrhau eu bod yn cael gafael ar y gefnogaeth a fydd yn eu galluogi i gwblhau eu cwrs.

Pan fo gan fyfyriwr broblem feddygol, mae'n bwysig ystyried ei addasrwydd i astudio - p'un a yw'n ddigon iach i gyfranogi ac ymgysylltu yn ei raglen astudio."

5 GMC a MSC -Ymddygiad proffesiynol ac addasrwydd i ymarfer: canllawiau ar gyfer ysgolion meddygaeth a'u myfyrwyr (Cyhoeddwyd Mai 2016; daeth i rym 1 Medi 2016)

# Gweithdrefnau da ar gyfer addasrwydd i ymarfer

## Iaith blaen

**29.** Dylai darparwyr ysgrifennu eu rheoliadau a'u gweithdrefnau yn glir ac mewn iaith blaen. Dylent eu gwneud yn hygyrch i fyfyrwyr. Dylid defnyddio cyn lleied â phosib o droednodiadau, a dylid diffinio acronymau. Dylai unrhyw ddolenni i wybodaeth ar wefannau cyrff proffesiynol allanol gael eu cadw'n gyfoes.

## Tegwch gweithdrefnol

**30.** Mae gweithdrefnau teg yn dilyn egwyddorion "cyfiawnder naturiol": Dylai darparwyr ddilyn egwyddorion tegwch gweithdrefnol a nodir yn Adran gweithdrefnau disgyblu y Fframwaith Arfer Da wrth benderfynu a yw'r myfyriwr wedi gwneud yr hyn y cyhuddir ef o'i wneud. Mewn gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer, dylai darparwyr fod yn arbennig o ymwybodol o'r canlynol:

- bod myfyrwyr yn deall unrhyw honiadau a / neu bryderon, a sut maent yn perthyn i'r safonau proffesiynol perthnasol ac addasrwydd y myfyriwr i ymarfer;
- dylid rhoi rhesymau dros wneud penderfyniadau ynghylch iechyd neu ymddygiad y myfyriwr, a beth i'w wneud yn ei gylch;
- dylai fod llwybr i'w ddilyn ar gyfer apelio; a
- dylid cynnal yr ymchwiliad, unrhyw wrandawiad ac unrhyw apêl cyn gynted â phosibl, er tegwch.

**31.** Pan fydd penderfyniad wedi'i wneud y gallai fod amhariad ar addasrwydd myfyriwr i ymarfer, dylai'r broses addasrwydd i ymarfer olygu gwrandawiad gerbron panel arbenigol fel arfer.

**32.** Os nad yw'r ffeithiau eisoes wedi'u cadarnhau (er enghraifft mewn achos troseddol neu achos disgyblu), dylai'r gwrandawiad fod yn broses dau gam. Yn gyntaf rhaid i'r panel sefydlu'r ffeithiau a rhoi cyfle i'r myfyriwr gyflwyno ei amddiffyniad. Lle bo hynny'n briodol, dylai'r darparydd gadw at y camau a'r egwyddorion a amlinellir yn yr Adran gweithdrefnau disgyblu o'r Fframwaith Arfer Da.

**33.** Unwaith y bydd y ffeithiau sydd wedi arwain at bryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer wedi cael eu profi, naill ai drwy weithdrefn ddisgyblu ar wahân neu euogfarn droseddol, neu yn ystod y gwrandawiad addasrwydd i ymarfer, bydd angen i'r panel ystyried a yw'r ffeithiau sydd wedi'u cadarnhau yn arwain at bryder gwirioneddol o ran addasrwydd i ymarfer, ac os felly, pa gamau y dylid eu cymryd.

## Cyfrinachedd ac anhysbysrwydd

**34.** Dylai darparwyr gadw mewn cof eu cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth diogelu data parthed gwybodaeth bersonol sensitif neu "ddata categori arbennig". Mae hyn yn cynnwys esbonio i fyfyrwyr sut y bydd y darparydd yn storio ac yn defnyddio gwybodaeth amdanynt, ac o dan ba amgylchiadau y gallai fod yn ofynnol iddo drosglwyddo gwybodaeth i gyrff allanol. Dylai gwybodaeth am fyfyrwyr sy'n destun achos addasrwydd i ymarfer gael ei chadw'n gyfrinachol cyn belled ag y bo modd gwneud hynny. Dylai'r wybodaeth gael ei datgelu i gyn lleied o bobl â phosibl, a dim ond i'r rhai sy'n ymwneud ag ymchwilio i'r mater neu â gwneud penderfyniad arno. Ni ddylid datgelu gwybodaeth sensitif i aelodau'r panel nes

bod eu haelodaeth wedi'i chadarnhau (fel bod y myfyriwr wedi cael cyfle i fynegi gwrthwynebiad i aelod o'r panel, er enghraifft ar sail rhagfarn, cyn iddo weld y wybodaeth sensitif).

**35.** Os yw person yn gwneud cwyn anhysbys am fyfyriwr, er enghraifft o dan weithdrefnau chwythu'r chwiban, mae angen i'r darparydd gymryd gofal ychwanegol i sicrhau ei fod yn ymchwilio i'r pryderon yn ofalus. Fel rheol bydd angen i'r rhai sy'n ymchwilio i'r pryderon wybod pwy yw'r person sy'n gwneud y gŵyn, fel y gallant ddiystyru'r posibilrwydd bod yr adroddiad wedi cael ei wneud yn faleisus. Ni ddisgwylir i dystion sy'n rhoi eu barn broffesiynol fod yn anhysbys. Os nad yw'r tyst yn cytuno i'r myfyriwr wybod pwy ydyw, efallai na fydd yn briodol dibynnu ar ei dystiolaeth. Pan ddaw tystiolaeth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth yn ystod cyfnod ar leoliad gwaith, bydd angen i ddarparydd y lleoliad gwaith amddiffyn cyfrinachedd y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, yn enwedig mewn achosion lle mae'r defnyddwyr gwasanaeth hynny'n blant neu'n oedolion bregus. Yn yr achosion hyn, dylai'r darparydd gael gafael ar gymaint o wybodaeth a phosibl gan ddarparydd y lleoliad gwaith. Gall hyn gynnwys crynodeb o honiadau a wnaed gan ddefnyddwyr y gwasanaeth, neu ddatganiadau a wnaed yn anhysbys gan dystion. Ym mhob achos mae angen i'r myfyriwr gael digon o wybodaeth am y pryderon a godwyd i allu ymateb iddynt.

## Baich prawf

Y "baich prawf" sy'n penderfynu cyfrifoldeb pwy yw profi'r achos. Mewn achos addasrwydd i ymarfer, dylai'r baich prawf fod ar y darparydd, hynny yw, rhaid i'r darparydd brofi bod y myfyriwr wedi gwneud yr hyn y cyhuddir ef o'i wneud. Er enghraifft, os cyhuddir myfyriwr o fod yn anghwrtais i ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystod cyfnod ar leoliad gwaith, bydd angen i'r darparydd ddangos tystiolaeth i brofi hyn ac egluro sut mae'r ymddygiad hwn yn amharu ar addasrwydd y myfyriwr i ymarfer.

Unwaith y bydd darparydd wedi dangos tystiolaeth i brofi honiad, os yw'r myfyriwr yn anghytuno â'r honiad, bydd angen iddo ddarparu tystiolaeth i wrthbrofi hynny. Bydd angen i fyfyrwyr hefyd brofi unrhyw ffactorau lliniarol y maent am ddibynnu arnynt.

## Safon prawf

Y "safon prawf" yw lefel y prawf sy'n ofynnol. Mewn gweithdrefnau cyfreithiol, y safon prawf ar gyfer achosion troseddol fel arfer yw "tu hwnt i amheuaeth resymol", sy'n safon uchel iawn. Mewn achosion sifil fel arfer defnyddir "cydbwysedd tebygolrwydd", hynny yw, mae'n fwy tebygol na pheidio bod rhywbeth wedi digwydd. Er bod y safon "cydbwysedd tebygolrwydd" yn is na "thu hwnt i amheuaeth resymol", rhaid i benderfyniadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth yn yr un ffordd. Mae'r safon yn uwch na dim ond credu bod rhywbeth yn debygol o fod wedi digwydd.

Dywed adran 112 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 fod yn rhaid defnyddio'r safon prawf sifil mewn gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer ar gyfer myfyrwyr gofal iechyd.

Dylai rheoliadau darparydd esbonio'n glir safon y prawf sy'n ofynnol mewn achosion addasrwydd i ymarfer; os na wnânt hynny, mae'n rhesymol tybio mai "cydbwysedd tebygolrwydd" yw'r safon a ddefnyddir.

Os yw darparydd yn gosod y safon prawf troseddol fel "y tu hwnt i amheuaeth resymol" yn ei weithdrefnau addasrwydd i ymarfer, rhaid iddo sicrhau bod y safon hon yn cael ei gweithredu'n ymarferol.

## Prydlondeb

**36.** Gall gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer beri cryn straen i fyfyrwyr, a gall y deilliannau arwain at effeithiau difrifol ar eu hastudiaethau a'u gyrfaoedd yn y dyfodol. Felly mae'n arbennig o bwysig bod yr ymchwiliadau, gwrandawiadau ac apeliadau yn cael eu cynnal cyn gynted â phosibl, er tegwch. Mae'r canlynol yn arfer da, lle bo hynny'n bosibl:

- dweud wrth y myfyriwr cyn gynted â phosibl bod pryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer wedi'u codi;
- cwblhau'r broses gyfan, gan gynnwys unrhyw apêl, cyn pen 90 diwrnod ar ôl i'r myfyriwr gael gwybod am y pryderon; a
- lle mae'r myfyriwr wedi bod yn destun achos disgyblu cysylltiedig, dylid cynnal y broses addasrwydd i ymarfer cyn gynted â phosibl, ac o fewn 45 diwrnod i'r penderfyniad disgyblu. Mewn achosion o'r fath ni fydd angen i'r broses addasrwydd i ymarfer brofi ffeithiau, er mwyn caniatáu i'r achos gael ei gwblhau'n gyflym.

**37.** Mae'n bosibl y bydd yn rhesymol i'r broses gymryd mwy na 90 diwrnod mewn achosion er enghraifft, pan fydd yr achos yn gymhleth, pan nad yw'r myfyriwr neu'r tystion ar gael i fynychu cyfarfodydd neu wrandawiadau, neu pan gaiff achos ei ohirio oherwydd ymchwiliad troseddol neu fod gan y myfyriwr asesiadau ar y gweill. Weithiau bydd darparwyr hefyd yn ei chael hi'n anodd ymgynnull panel sydd â'r cefndir proffesiynol cywir, neu ddod o hyd i aelodau panel nad ydynt wedi ymwneud yn flaenorol â'r pryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer. Yn yr achosion hynny, dylai'r darparydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r myfyriwr ac unrhyw dystion am hynt yr ymchwiliad, a phryd y mae'n debygol o ddod i ben.

**38.** Mewn achosion lle mae'r darparydd yn rhoi mesurau cymorth ar waith i helpu'r myfyriwr i gyrraedd y safonau angenrheidiol, dylid gohirio'r broses addasrwydd i ymarfer.

## Support and representation

**39.** Dylai darparwyr gyfeirio myfyrwyr sy'n destun gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer at y gwasanaethau cymorth sydd ar gael, er enghraifft undeb y myfyrwyr, neu undebau llafur proffesiynol perthnasol, a all ddarparu cymorth a chyngor annibynnol. Mae'n arfer da ei gwneud yn bosibl i fyfyrwyr gael mynediad at gymorth a chyngor a, lle nad yw'n ymarferol gwneud hynny'n fewnol, dylai darparwyr ystyried gwneud trefniadau i alluogi myfyrwyr i gael gafael ar wasanaethau cymorth mewn sefydliadau cyfagos, darparwyr partner neu wasanaethau eraill yn y gymuned leol. Mae myfyrwyr rhyngwladol yn debygol o fod angen cyngor a chymorth ychwanegol, er enghraifft, gyda materion fisa, gydag unrhyw gostau annisgwyl yn ymwneud â gorfod dychwelyd i'w mamwlad, a chyda mynychu cyfarfodydd a gwrandawiadau o bell.

**40.** Dylai gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer y darparydd esbonio pwy gaiff fynd gyda'r myfyriwr neu ei gynrychioli mewn cyfarfodydd a gwrandawiadau, beth fydd hynny'n ei olygu a beth a ddisgwylir ganddynt.

**41.** Fel rheol ni fydd angen i fyfyrwyr sydd â mynediad at wasanaethau cymorth myfyrwyr sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac sydd ag adnoddau digonol, ofyn am gyngor cyfreithiol, er efallai y byddant am wneud hynny mewn achosion difrifol. Mae'n arfer da i ddarparwyr ganiatáu cynrychiolaeth gyfreithiol mewn achosion cymhleth, neu lle gallai'r canlyniadau i'r myfyriwr fod yn ddifrifol iawn o bosib. Mae'r rhan fwyaf o reoleiddwyr proffesiynol yn caniatáu cynrychiolaeth gyfreithiol wrth ddelio â materion addasrwydd i ymarfer.

**42.** P'un a oes gan y myfyriwr gynrychiolydd ai peidio, fel rheol bydd disgwyl i'r myfyriwr ateb unrhyw gwestiynau am yr hyn sydd wedi arwain at y pryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer.

### ASTUDIAETH ACHOS 3
Cynrychiolaeth

Gofynnir i fyfyrwraig gwaith cymdeithasol ar ei hail flwyddyn fynychu gwrandawiad panel addasrwydd i ymarfer oherwydd pryderon am ei pherthynas â defnyddiwr y gwasanaeth. Mae'r fyfyrwraig yn gwadu gwneud unrhyw beth o'i le ac yn gofyn i'r darparydd am ganiatâd i ddod â chynrychiolydd cyfreithiol gyda hi i'r gwrandawiad. Mae'r fyfyrwraig yn esbonio ei bod hi eisoes yn nyrs gymwysedig, ac y gallai canfyddiad ei bod yn anaddas i ymarfer arwain at ganlyniadau difrifol, nid dim ond i'w dyfodol ar y rhaglen gwaith cymdeithasol, ond o ran ei gyrfa fel nyrs. Mae'r darparydd yn caniatáu i'r fyfyrwraig gael cynrychiolaeth gyfreithiol.

## Addasiadau rhesymol i'r broses

**43.** Mae'n arfer da sicrhau bod gweithdrefnau ar gael i bob myfyriwr mewn gwahanol fformatau hygyrch. Dylai darparwyr ystyried ym mhob achos a ddylid gwneud addasiadau rhesymol i weithdrefnau er mwyn rhoi ystyriaeth i anghenion unigol myfyrwyr. Mae'n arfer da cadw cofnod o unrhyw addasiadau a wnaed. Mewn gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer, mae'n bosib y bydd angen i'r darparydd wneud addasiadau ar gyfer gwrandawiadau, neu ganiatáu mwy o amser i fyfyriwr ymateb i honiadau.

**44.** Mewn rhai achosion, efallai na fydd y myfyriwr mewn iechyd digon da i fynd drwy broses addasrwydd i ymarfer. Yn yr achosion hynny, dylai'r darparydd gynnig amser i ffwrdd o'i astudiaethau i'r myfyriwr nes bod ei iechyd yn gwella. Dylai'r darparydd esbonio i'r myfyriwr y bydd y broses addasrwydd i ymarfer yn ail-ddechrau pan fydd y myfyriwr yn barod i ddychwelyd.

**45.** Dylai darparwyr ddweud wrth fyfyrwyr sydd ag anawsterau iechyd meddwl ynglŷn â'r gwasanaethau cymorth penodol sydd ar gael iddynt, er enghraifft gwasanaethau cwnsela a, lle bo hynny'n briodol, gwasanaethau y tu allan i'r darparydd.

## Perthynas â gweithdrefnau eraill

**46.** Mae'n bwysig cofio y gall pryderon addasrwydd i ymarfer ddeillio o faterion disgyblu neu gamymddwyn, neu o faterion yn ymwneud ag iechyd neu anabledd, a gall gwahanol weithdrefnau fod yn berthnasol ym mhob achos. Rhaid i ddarparwyr esbonio yn eu gweithdrefnau sut mae'r gweithdrefnau hynny'n gysylltiedig â'i gilydd. Dylai'r darparydd nodi'n glir i'r myfyriwr unigol sut y dilynir y gwahanol brosesau yn eu hachos nhw, ac ym mha drefn.

**47.** Nid yw achos addasrwydd i ymarfer yn ymwneud â disgyblaeth, ac mae'n wahanol i brosesau cymorth i astudio (neu addasrwydd i astudio). Gallai mater disgyblu arwain at achos addasrwydd i ymarfer os yw'r ymddygiad a arweiniodd at gamau disgyblu yn erbyn y myfyriwr yn bwrw amheuaeth ar addasrwydd y myfyriwr i ymarfer. Mae'r adran Gweithdrefnau disgyblu o'r Fframwaith Arfer Da yn nodi egwyddorion tegwch gweithdrefnol ar gyfer gweithdrefnau disgyblu.

**48.** Os cynhelir proses ddisgyblu ar wahân cyn gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer, dylid rhoi cyfle i'r myfyriwr apelio yn erbyn canlyniad yr achos disgyblu. Os yw'r myfyriwr yn anghytuno â ffeithiau'r achos, ni ddylai'r darparydd gychwyn achos addasrwydd i ymarfer nes bod y weithdrefn ddisgyblu fewnol wedi'i chwblhau. Mae'n bosib y bydd angen gweithredu ar unwaith i amddiffyn y myfyriwr neu eraill (gweler paragraffau 71 i 73).

**49.** Pan fydd myfyriwr yn cyflwyno cwyn yn ystod achos addasrwydd i ymarfer, mae'n bosib y bydd yn briodol gohirio'r broses addasrwydd i ymarfer tra bydd ymchwiliad i'r gŵyn yn cael ei gynnal. Bydd hyn yn dibynnu ar natur y pryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer a natur y gŵyn, a sut mae'r naill yn perthyn i'r llall. Pan fo cysylltiad agos rhyngddynt, fel rheol bydd yn briodol i'r darparydd ystyried y materion a godwyd yn y gŵyn fel rhan o'r broses addasrwydd i ymarfer. Rhaid i ddarparwyr roi'r wybodaeth ddiweddaraf i fyfyrwyr o ran pa broses sy'n cael ei dilyn, beth sy'n debygol o ddigwydd nesaf a'r amserlen debygol ar gyfer hyn.

**50.** Dylai darparwyr ddilyn canllawiau SDA ar gyhoeddi Llythyrau Cwblhau Gweithdrefnau pan fydd mwy nag un weithdrefn yn cael ei dilyn.

**ASTUDIAETH ACHOS 4**
Camymddwyn academaidd ac addasrwydd i ymarfer

Cyhuddir myfyriwr y gyfraith ar ei flwyddyn gyntaf o lên-ladrad yn un o'i asesiadau. Dywedir wrth y myfyriwr y gallai camymddwyn academaidd arwain at bryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer. Ar ddiwedd y broses ddisgyblu, canfyddir bod y myfyriwr wedi llên-ladrata'r gwaith, ond mae hyn oherwydd nad yw wedi deall yn iawn ac wedi dilyn y canllawiau ar osgoi llên-ladrad. Rhoddir marc o sero i'r myfyriwr, ond caniateir iddo ailgyflwyno'r asesiad am farc wedi'i gapio.

Yna mae'r darparydd yn ysgrifennu at y myfyriwr i ddweud ei fod yn ymchwilio i'r pryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer. Ar ôl cyfarfod gyda'r myfyriwr, mae'r darparydd yn penderfynu nad yw'r myfyriwr wedi bod yn anonest yn fwriadol ac nad oes pryderon ynghylch ei addasrwydd i ymarfer. Mae'r darparydd yn egluro hyn i'r myfyriwr ac yn cadw cofnod o'r broses a'r canlyniad ar ffeil y myfyriwr.

## Cymorth i astudio

**51.** Mae prosesau cymorth i astudio, neu addasrwydd i astudio, yn berthnasol i bob myfyriwr, nid dim ond i'r rhai sydd ar gyrsiau proffesiynol, ac maent yn ymwneud â llesiant myfyriwr. Os yw iechyd neu lesiant myfyriwr yn peri pryder i'r darparydd ynghylch gallu'r myfyriwr hwnnw i barhau ag astudio ar ei gwrs, gall y darparydd weithredu o dan ei weithdrefnau cymorth i astudio. Gall hyn godi, er enghraifft, pan fo gan y darparydd bryderon bod y myfyriwr yn peri risg i'w iechyd neu ddiogelwch ei hun neu iechyd a diogelwch pobl eraill (ar safle'r darparydd neu'r lleoliad gwaith), neu fod ymddygiad y myfyriwr yn effeithio ar brofiad dysgu myfyrwyr eraill.

**52.** Mae gweithdrefnau cymorth i astudio yn wahanol i weithdrefnau addasrwydd i ymarfer, ond gall pryderon ynghylch a yw myfyriwr yn addas i barhau â'i astudiaethau yn y tymor byr arwain at bryderon ynghylch ei addasrwydd i ymarfer yn y tymor hir. Dylai darparwyr sicrhau bod myfyrwyr yn deall y broses neu'r prosesau a ddilynir.

## ASTUDIAETH ACHOS 4

### Cymorth i astudio ac addasrwydd i ymarfer

Mae myfyriwr milfeddygaeth yn dioddef dirywiad mewn cyflwr iechyd meddwl sy'n bodoli eisoes. Mae myfyrwyr eraill wedi sôn bod y myfyriwr wedi bod yn ymddwyn yn anghyson ac wedi siarad am niweidio ei hun. Mae'r darparydd yn gofidio am lesiant y myfyriwr ac yn cymryd camau o dan ei broses cymorth i astudio. Ar ddiwedd y broses honno mae'r myfyriwr yn cytuno i atal ei astudiaethau fel y gall gael triniaeth ac adfer ei iechyd. Mae'r darparydd yn egluro y bydd angen sicrhau bod y myfyriwr yn addas i ymarfer pan fydd yn barod i ddychwelyd.

Pan fydd y myfyriwr yn dychwelyd, bydd y darparydd yn cychwyn ymchwiliad addasrwydd i ymarfer i weld a yw'r myfyriwr wedi cymryd cyfrifoldeb am ei iechyd ei hun, ac a yw wedi cydnabod y gallai ei iechyd effeithio ar ei allu i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.

Mae'r darparydd yn penderfynu bod y myfyriwr wedi bod yn ymwybodol o'r ffaith fod ei iechyd yn dirywio, ac wedi cysylltu â'i feddyg teulu cyn cael ei atgyfeirio i gael cymorth i astudio. Roedd wedi dangos ymwybyddiaeth o gyflwr ei iechyd, ac roedd hefyd wedi ymateb yn gadarnhaol i'r ymyriad o ran cymorth i astudio, gan fynnu triniaeth a chymorth yn ystod y cyfnod o waharddiad. Nid oes unrhyw awgrym bod y myfyriwr wedi gwneud unrhyw beth anniogel. Daw'r darparydd i'r casgliad bod y myfyriwr yn addas i ymarfer, a gall ddychwelyd at ei astudiaethau.

## Ymddygiad sy'n gyfystyr â throsedd dan y gyfraith.

**53.** Os yw'r heddlu neu'r llysoedd yn ymwneud â'r mater, fel rheol dylai darparwyr aros am ganlyniad yr ymchwiliad cyn cynnal ymchwiliad mewnol. Dylai'r darparydd gadw mewn cysylltiad â'r myfyrwyr sy'n ymwneud â'r achos a chyda'r heddlu yn ystod y broses hon. Efallai y bydd angen i'r darparydd gymryd rhyw fath o gamau dros-dro yn erbyn y myfyriwr, er mwyn amddiffyn myfyrwyr eraill, aelodau staff a defnyddwyr y gwasanaeth. Er enghraifft, gellir atal myfyriwr o'i gwrs, neu ei wahardd dros dro o'i leoliad gwaith. Dylai darparwyr ystyried pob achos yn unigol, gan bwyso a mesur y risg i eraill yn erbyn yr anfantais bosibl i'r myfyriwr yn sgil yr hyn a allai fod yn waharddiad hirfaith tra bo'r ymchwiliad troseddol yn cael ei gynnal.

**54.** Mewn achos lle dyfernir bod myfyriwr yn ddieuog o drosedd dan y gyfraith, neu lle mae'r ymchwiliad troseddol wedi cael ei ollwng, gall y darparydd weithredu yn ei erbyn o hyd o dan ei weithdrefnau disgyblu / addasrwydd i ymarfer.

**55.** Os yw'r myfyriwr yn euog o drosedd dan y gyfraith, rôl y panel addasrwydd i ymarfer yw penderfynu a yw'r hyn y mae'r myfyriwr wedi'i wneud yn amharu ar ei addasrwydd i ymarfer.

## ASTUDIAETH ACHOS 6
### Achosion troseddol ac addasrwydd i ymarfer

Mae myfyriwr dan hyfforddiant i fod yn weithiwr cymdeithasol yn cael ei gyhuddo'n ffurfiol o drosedd dreisgar. Mae'r darparydd yn gwahardd y myfyriwr rhag mynd ar leoliad gwaith ymarferol yn ystod ymchwiliad yr heddlu a'r achos llys sy'n dilyn. Caniateir i'r myfyriwr barhau i fynychu addysgu academaidd.

Mae'r myfyriwr yn pledio'n ddieuog, ond fe'i ceir yn euog o'r drosedd, a rhoddir dedfryd wedi'i gohirio iddo. Yna mae'r darparydd yn cychwyn achos addasrwydd i ymarfer.

Mae'r myfyriwr yn parhau i wadu ei fod wedi cyflawni'r drosedd. Nid yw'r panel addasrwydd i ymarfer yn ail-glywed yr honiad, ond mae'n defnyddio euogfarn y myfyriwr am y drosedd fel man cychwyn. Ei rôl yw penderfynu a yw'r hyn y mae'r myfyriwr wedi'i wneud yn amharu ar ei addasrwydd i ymarfer. Mae'r panel yn penderfynu bod natur y drosedd yn golygu nad yw'n briodol i'r myfyriwr weithio gydag oedolion bregus. Felly mae'n penderfynu nad yw'r myfyriwr yn addas i ymarfer ac yn terfynu ei le ar y rhaglen astudio.

## Lleoliadau gwaith

**56.** Mae pryderon ynghylch addasrwydd myfyriwr i ymarfer yn aml yn codi gyntaf yn ystod lleoliadau ymarferol dan amodau proffesiynol, er enghraifft mewn ysgol neu ysbyty, pan fydd myfyrwyr yn rhyngweithio â'r cyhoedd. Dylai fod gan ddarparwyr brosesau clir ar waith sy'n caniatáu i unrhyw bryderon gael eu dwyn i'w sylw yn brydlon.

**57.** Pan fydd lleoliad gwaith yn cael ei atal neu ei derfynu oherwydd pryderon ynghylch addasrwydd y myfyriwr i ymarfer, dylai'r darparydd gynnal ei ymchwiliad ei hun i'r digwyddiadau a arweiniodd at y terfyniad. Lle bo hynny'n bosib, dylai gael datganiadau gan staff yn y lleoliad gwaith fu'n dyst i ymddygiad y myfyriwr, fel y gall y myfyriwr roi sylwadau arnynt. Mewn rhai achosion, gall fod yn briodol gofyn i staff y lleoliad gwaith fynychu gwrandawiad addasrwydd i ymarfer.

**58.** Mae'n rhesymol i'r darparydd osod gwerth sylweddol ar farn broffesiynol staff yn y lleoliad gwaith. Ond dylai hefyd wrando ar adroddiad y myfyriwr am yr hyn a ddigwyddodd ar y lleoliad ac ymchwilio i unrhyw anghydfod o ran ffeithiau neu honiadau nad yw'r myfyriwr wedi cael ei drin yn deg.

**59.** Os bydd y darparydd yn penderfynu y dylid caniatáu i'r myfyriwr barhau â'i astudiaethau (gyda chymorth priodol) efallai na fydd yn bosibl i'r myfyriwr ddychwelyd i'r un lleoliad gwaith oherwydd bod y berthynas wedi chwalu. Os mai cyfrifoldeb y darparydd yw dod o hyd i leoliadau gwaith neu eu trefnu, dylid gwneud pob ymdrech i ddod o hyd i gyfleoedd mewn lleoliad arall i'r myfyriwr. Mae'n rhesymol i ddarparwyr ddisgwyl i fyfyrwyr gymryd rhan gadarnhaol yn y broses hon. Os yw'n profi ei bod yn amhosibl dod o hyd i leoliad gwaith amgen, dylai'r darparydd drafod gyda'r myfyriwr a fyddai'n bosib iddo drosglwyddo i gwrs arall neu ba drefniadau ymadael a allai fod ar gael.

**60.** Dylai darparwyr, lle bo hynny'n bosibl, wahaniaethu rhwng methiant myfyriwr i gyflawni'r safon sy'n angenrheidiol i lwyddo yn y lleoliad gwaith ac addasrwydd myfyriwr i ymarfer. Efallai y bydd myfyriwr sy'n methu â chyrraedd y safonau angenrheidiol yn disgwyl cyfle i ymestyn y cyfnod yn y lleoliad gwaith neu ei ailadrodd fel y gall wella ei berfformiad. Ni fydd myfyriwr y canfyddir ei fod yn anaddas i ymarfer yn gallu parhau, oni bai bod y darparydd yn cytuno ar fesurau cymorth i'w helpu i wella ei berfformiad, er mwyn rhoi cyfle iddo ddatrys y materion a ddynodwyd ynghylch ei ymarfer.

## ASTUDIAETH ACHOS 7
Lleoliadau gwaith

Mae athro dan hyfforddiant ar leoliad mewn ysgol. Mae gan yr ysgol bryderon diogelu ynghylch ymarfer y myfyriwr. Mae'r ysgol yn dod â'r lleoliad gwaith i ben ar unwaith ac yn dwyn y mater i sylw Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol (SDALl), a benodir gan yr awdurdod lleol i ymchwilio i bryderon diogelu plant. Mae SDALl yn ymchwilio i'r pryderon ac yn dod i'r casgliad bod "cyfiawnhad amdanynt". Yn ystod ymchwiliad SDALl, caniateir i'r hyfforddai fynychu darlithoedd gyda'r darparydd, ond ni chaniateir iddo fynd ar leoliad ymarferol.

Ar ddiwedd ymchwiliad SDALl, mae'r darparydd yn dechrau achos addasrwydd i ymarfer. Mae achos yr athro dan hyfforddiant yn cael ei ystyried gan banel addasrwydd i ymarfer. Nid yw'r panel yn ail-ymchwilio i'r pryderon, ond mae'n ystyried a yw penderfyniad SDALl yn golygu nad yw'r hyfforddai yn addas i ymarfer. Mae'r panel yn penderfynu bod y pryderon a nodwyd gan yr ysgol ac ymchwiliad SDALl a ddilynodd mor ddifrifol nes bod ymddygiad yr hyfforddai yn y bôn yn anghydnaws â bod yn athro. Daw'r panel i'r casgliad nad yw'r hyfforddai yn addas i ymarfer ac mae'n terfynu ei le ar y rhaglen astudio.

## Dyfarniad proffesiynol

**61.** Mae'r cwestiwn a yw'r myfyriwr yn addas i ymarfer mewn galwedigaeth benodol yn aml yn gwestiwn na all ond rhywun â gwybodaeth arbenigol am y proffesiwn hwnnw ei ateb. Byddai'r casgliad hwnnw'n ddyfarniad proffesiynol.

**62.** Rhaid i banel sy'n arfer barn broffesiynol wneud hynny ar sail tystiolaeth gadarn. Er enghraifft, pan fydd staff mewn lleoliad gwaith yn dweud bod ymddygiad myfyriwr yn amhroffesiynol, dylai'r panel ystyried tystiolaeth gan dystion a chofnodion o'r lleoliad gwaith i weld a ydynt yn gyson â'r honiadau yn erbyn y myfyriwr.

**63.** Mewn rhai achosion, ni fydd angen barn broffesiynol er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch a yw'r myfyriwr yn addas i ymarfer, er enghraifft, lle mae'r myfyriwr yn cael ei garcharu am drosedd dreisgar.

# Cadw cofnodion

**64.** Dylai darparwyr sicrhau eu bod yn cadw cofnodion cymesur o weithdrefnau addasrwydd i ymarfer ynghyd â deilliannau achosion o'r fath. Dylid cadw cofnodion hyd yn oed pan nad yw'r achos yn arwain at gymryd unrhyw gamau yn erbyn y myfyriwr. Mae hyn oherwydd y gallai ymddygiad neu bryderon nad ydynt yn cael eu hystyried yn ddigon difrifol i fod angen unrhyw gamau fod yn berthnasol mewn achos diweddarach os yw'r myfyriwr yn ymddwyn mewn ffordd debyg eto neu os codir pryderon eraill. Mae'n arfer da cadw cofnod hyd yn oed os canfyddir bod y myfyriwr yn gwbl ddieuog, rhag ofn y bydd anghydfod yn codi'n ddiweddarach ynghylch yr achos neu'r canlyniad. Dylai fod gan ddarparwyr bolisïau clir sy'n nodi pa mor hir y bydd cofnodion o'r fath yn cael eu cadw, ac o dan ba amgylchiadau y gallent gael eu datgelu i gyrff eraill.

**65.** Dylai'r darparydd esbonio i'r myfyriwr pa gofnodion sy'n cael eu cadw, ac at ba ddiben.

# Y broses

## Cam rhagarweiniol / achos pryder

**66.** Mae'n arfer da i ddarparwyr fod â cham rhagarweiniol neu weithdrefn "achos pryder" i asesu a oes amheuaeth ynghylch addasrwydd y myfyriwr i ymarfer, neu a yw'r pryder yn ymwneud â materion cymhwysedd llai difrifol. Bwriedir i'r cam hwn o'r weithdrefn fod yn ddatblygiadol ac yn gefnogol. Mae'n rhoi cyfle i'r myfyriwr wella ei ymarfer neu ei ddull o weithredu.

**67.** Dylai darparwyr gytuno ar fesurau cymorth gyda'r myfyriwr, a dylid eu nodi mewn cynllun gweithredu ynghyd ag unrhyw amserlen gysylltiedig ar gyfer gwelliant. Dylai darparwyr ei gwneud yn glir i fyfyrwyr beth yw'r camau nesaf os nad ydynt yn cyflawni'r gwelliannau a amlinellir yn y cynllun gweithredu.

**68.** Mae angen i fyfyrwyr allu dangos bod ganddyn nhw'r ymwybyddiaeth angenrheidiol ynglŷn â'u hymddygiad neu'r materion a arweiniodd at bryderon am eu haddasrwydd i ymarfer. Mae'n bosib y bydd darparwyr yn gofyn i'r myfyriwr gwblhau darn o waith fel modd o adlewyrchu ar ei ymarfer. Dylai darparwyr ei gwneud yn glir i'r myfyriwr beth yw diben y gwaith hwn, sut y bydd yn cael ei asesu a'r canlyniadau sy'n deillio o hyn os na fydd y myfyriwr yn ei gwblhau i safon foddhaol.

**69.** Mae'n arfer da dweud wrth y myfyriwr bod pryderon wedi'u codi ynghylch ei ymarfer neu ei ymddygiad, hyd yn oed os yw'r darparydd yn penderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau. Bydd y wybodaeth y mae'r darparydd yn ei rhoi i'r myfyriwr yn amrywio gan ddibynnu ar natur y pryderon a godwyd. Os yw'r darparydd yn bwriadu cadw cofnod o'r pryderon, yna dylid caniatáu i'r myfyriwr ymateb iddynt os yw'n dymuno gwneud hynny.

**70.** Weithiau gall darparydd osgoi'r gweithdrefnau "achos pryder" os yw'r mater sy'n arwain at bryder ynghylch addasrwydd i ymarfer yn ddigon difrifol. Gall hyn fod yn briodol er enghraifft os yw'r myfyriwr wedi niweidio neu fod perygl y bydd yn niweidio eraill, neu os yw pryderon addasrwydd i ymarfer wedi codi yn dilyn euogfarn droseddol. Gall hefyd fod yn briodol symud ymlaen at gamau mwy ffurfiol y weithdrefn os yw'r myfyriwr yn cwestiynu'r digwyddiadau neu'r ymddygiad a arweiniodd at yr achos pryder. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y myfyriwr yn cael cyfle teg i gyflwyno ei achos.

## Pan fo angen gweithredu ar unwaith yn ystod ymchwiliad addasrwydd i ymarfer

**71.** Mewn achosion lle gallai myfyriwr fod yn beryglus iddo'i hun neu i eraill, mae gan ddarparwyr gyfrifoldeb i wneud yr hyn sydd o fewn eu gallu i amddiffyn eu myfyrwyr, staff, defnyddwyr y gwasanaeth mewn lleoliadau ymarfer, ac aelodau'r cyhoedd. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i'r darparydd weithredu ar unwaith, yn enwedig pan fydd myfyriwr ar leoliad gwaith. Gallai hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:

- achosion sy'n ymwneud â bygythiad o niwed difrifol i'r myfyriwr a/neu eraill;
- achosion yn ymwneud â chamymddwyn difrifol / achosion difrifol o ymddygiad amhroffesiynol;
- achosion lle mae myfyriwr wedi dangos arfer anniogel;
- achosion lle mae iechyd meddwl y myfyriwr mewn perygl; neu
- achosion sy'n codi pryderon diogelu difrifol.

**72.** Dylai gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer nodi pa gamau y gall darparydd eu cymryd, o dan ba amgylchiadau a phwy sydd â'r awdurdod i benderfynu hyn. Gallai enghreifftiau gynnwys tynnu myfyriwr allan o'i leoliad gwaith dros dro, ond caniatáu iddo barhau i fynychu addysgu academaidd; cyfyngu mynediad i wasanaethau'r darparydd; neu gyfnod o atal dros dro.

**73.** Mae'r Adran gweithdrefnau disgyblu o'r Fframwaith Arfer Da yn darparu canllaw arfer da pellach i ddarparwyr wrth gymryd camau o'r fath.

# Y cam ffurfiol

**74.** Dylai'r gweithdrefnau a ddilynir fod yn gymesur â natur a chymhlethdod y materion a godwyd a'r deilliannau posib i'r myfyriwr.

## Ymchwiliadau yn ystod y cam ffurfiol

**75.** Pan fo addasrwydd myfyriwr i ymarfer yn cael ei ystyried oherwydd canfyddiadau blaenorol o dan weithdrefn ddisgyblu, neu o ganlyniad i euogfarn droseddol, yn gyffredinol nid oes angen, ac nid yw'n ofynnol, cynnal ymchwiliad ffurfiol i'r ffeithiau.

**76.** Bydd angen i'r darparydd gynnal ymchwiliad lle nad yw ffeithiau'r achos wedi'u cael eu cadarnhau eto, neu lle mae angen gwybodaeth bellach ynglŷn ag effeithiau'r mater a arweiniodd at bryder ynghylch addasrwydd y myfyriwr i ymarfer. Yn yr amgylchiadau hynny, dylai'r ymchwiliad ffurfiol gael ei gynnal gan aelod o staff nad yw wedi ymwneud â'r achos y flaenorol. Dylai aelodau staff sy'n gyfrifol am ymchwilio i bryderon addasrwydd i ymarfer gael eu hyfforddi'n briodol, a dylai fod adnoddu a chefnogaeth ar eu cyfer.

**77.** Dylai'r sawl sy'n cynnal yr ymchwiliad gwrdd â'r myfyriwr cyn gynted â phosibl. Dylai'r myfyriwr gael rhybudd o'r cyfarfod, ynghyd â digon o wybodaeth i'w alluogi i ymateb i'r pryderon, yn ogystal â chopi o'r weithdrefn berthnasol yn ystod y cam hwnnw. Dylid hefyd dweud wrth y myfyriwr sut i gael gafael ar gyngor a chefnogaeth, a phwy all fynd gyda nhw i'r cyfarfod. Mae'n arfer da darparu'r myfyriwr â chofnod o'r cyfarfod, ond fel rheol ni fydd angen iddo fod yn drawsgrifiad llawn.

**78.** Mae'n hanfodol bod yn glir ynghylch yr hyn yr ymchwilir iddo, a sut mae hynny'n perthyn i'r safonau proffesiynol perthnasol, er mwyn sicrhau bod yr aelod staff a'r

myfyriwr yn deall diben a chwmpas yr ymchwiliad a'r canlyniadau posibl. Gall yr aelod o staff sy'n ymchwilio i'r achos siarad â staff y darparydd, staff yn y lleoliad gwaith, a/neu fyfyrwyr eraill. Byddant hefyd yn ystyried dogfennau a thystiolaeth arall, gan gynnwys tystiolaeth feddygol, y mae'r myfyriwr yn eu darparu i gefnogi ei achos. Dylai'r ymchwilydd hefyd ystyried unrhyw faterion llesiant.

**79.** Dylai'r aelod staff lunio adroddiad yn seiliedig ar ei ymchwiliadau sy'n amlinellu'r broses a ddilynwyd, y wybodaeth a ddaeth i'r golwg, ac unrhyw gasgliadau. Dylai'r myfyriwr neu ei gynrychiolydd dderbyn copïau o'r wybodaeth a ddaeth i law yn ystod yr ymchwiliad, ynghyd â chopi o adroddiad yr ymchwiliad a gwybodaeth am y camau nesaf yn y broses. Lle bo angen, dylai'r darparydd sicrhau bod gwybodaeth bersonol a dderbyniwyd yn ystod yr ymchwiliad yn cael ei gwneud yn anhysbys cyn ei hanfon at y myfyriwr neu ei gynrychiolydd. Dylid hefyd rhoi gwybod i'r myfyriwr pwy y gall gysylltu â nhw gydag unrhyw ymholiadau ynglŷn â hynt yr achos.

**80.** Pan fydd yr ymchwilydd o'r farn y gallai addasrwydd y myfyriwr i ymarfer fod wedi'i amharu, dylid cyfeirio'r mater at banel gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer Gall yr ymchwilydd gyflwyno'r achos i'r panel, ond ni ddylai fod yn rhan o broses gwneud penderfyniadau'r panel.

## Gwrandawiadau panel addasrwydd i ymarfer

**81.** Mae'n arfer da cynnal gwrandawiad neu gyfarfod gyda phanel arbenigol oherwydd canlyniadau difrifol posibl achos addasrwydd i ymarfer i'r myfyriwr. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae cwestiynau ffeithiol i'w penderfynu.

**82.** Bydd rôl y panel yn wahanol gan ddibynnu a yw ffeithiau'r achos eisoes wedi cael eu penderfynu (er enghraifft mewn achos troseddol neu achos disgyblu). Pan fo'r pryderon addasrwydd i ymarfer yn ymwneud â rhywbeth sydd heb ei brofi, rhaid i'r panel yn gyntaf sefydlu'r ffeithiau a rhoi cyfle i'r myfyriwr gyflwyno ei achos. Dylai'r darparydd, yn ystod y cam hwn o'r broses, ddilyn adran Gweithdrefnau disgyblu'r Fframwaith Arfer Da.

**83.** Ar ôl i unrhyw ffeithiau dadleuol gael eu penderfynu, naill ai drwy weithdrefn ddisgyblu ar wahân neu achos troseddol, neu gan y panel addasrwydd i ymarfer, rôl y panel fydd ystyried a yw'r ffeithiau sy'n hysbys yn arwain at bryder gwirioneddol ynghylch addasrwydd i ymarfer ac, os felly, pa gamau y dylid eu cymryd.

**84.** Dylai holl aelodau'r panel gael eu hyfforddi'n ddigonol fel bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'r broses, cylch gwaith y panel, y canlyniadau posibl, gofynion proffesiynol perthnasol a deddfwriaeth cydraddoldeb. Dylai'r panel gynnwys o leiaf un gweithiwr proffesiynol sydd ag arbenigedd perthnasol mewn materion addasrwydd i ymarfer. Mae rhai rheoleiddwyr proffesiynol yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gynnal paneli addasrwydd i ymarfer mewn ffordd benodol. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, er enghraifft, yn ei gwneud yn ofynnol i ymarferydd deintyddol cofrestredig fod ar y panel, ac mae'n gwneud awgrymiadau eraill ar gyfer cyfansoddiad y panel. Mae hefyd yn nodi gofynion ar gyfer mecanwaith apelio.

**85.** Dylai'r gweithdrefnau nodi:

- pwy gaiff eistedd ar banel a phwy gaiff ei gadeirio;
- beth fyddai'n digwydd os na all aelodau'r panel gytuno;
- y gall y myfyriwr ddod â rhywun gydag ef i'w gynrychioli, a phwy:
- a gaiff y myfyriwr fynychu'r gwrandawiad neu'r cyfarfod drwy ddulliau amgen (er

enghraifft drwy alwad fideo);

- a fydd y gwrandawiad neu'r cyfarfod yn mynd rhagddo os bydd y myfyriwr yn dewis peidio â bod yn bresennol neu'n methu â mynychu;
- y broses ar gyfer aildrefnu dyddiad y gwrandawiad neu'r cyfarfod os na all y myfyriwr neu dyst arall fod yn bresennol am reswm da;
- pwy all fynychu'r gwrandawiad neu'r cyfarfod ac ym mha rôl; ac
- a all y panel ofyn am gymorth gan gynghorwyr cyfreithiol neu bobl allanol eraill.

**86.** Fel rheol ni fydd angen i'r panel glywed tystiolaeth lafar gan dystion (ac eithrio'r myfyriwr) pan fydd y ffeithiau eisoes wedi'u penderfynu neu eu cytuno. Pan fo anghydfod o ran y ffeithiau sy'n arwain at bryder ynghylch addasrwydd i ymarfer, dylai'r gweithdrefnau hefyd nodi'r canlynol:

- bod gan y myfyriwr hawl i alw tystion;
- p'un a ellir galw tystion eraill ac a all y myfyriwr ofyn cwestiynau iddynt yn uniongyrchol neu drwy gadeirydd y panel; a
- p'un a all unrhyw dystion fynychu drwy ddulliau amgen (er enghraifft drwy alwad fideo);

**87.** Dylai'r gwrandawiad neu'r cyfarfod gael ei drefnu'n brydlon, a dylid rhoi rhybudd digonol ohono i'r myfyriwr. Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybod i'r myfyriwr beth yw diben y cyfarfod neu'r gwrandawiad; ei hawl i fod yn bresennol; sut i gael gafael ar gyngor a chymorth; ei hawl i ddod â rhywun gydag ef, neu rywun i'w gynrychioli, a pha rôl y caniateir i unrhyw gynrychiolydd neu gydymaith ei chwarae yn y gwrandawiad neu'r cyfarfod. Os caniateir i'r myfyriwr fynychu'r gwrandawiad neu'r cyfarfod drwy ddulliau amgen (er enghraifft drwy alwad fideo), dylai'r darparydd esbonio sut y bydd yn trefnu ac yn hwyluso hyn.

**88.** Mae'n hanfodol rhoi gwybodaeth ymlaen llaw i'r myfyriwr am bwy fydd ar y panel, pwy fydd yn mynychu'r cyfarfod a beth fydd eu rôl nhw. Rhaid hefyd rhoi copi o'r wybodaeth sydd i'w hystyried i'r myfyriwr cyn y gwrandawiad.

**89.** Er tegwch, mae'n ofynnol i baneli fod yn rhydd o ragfarn neu unrhyw ganfyddiad rhesymol o ragfarn. Yng nghyd-destun proses addasrwydd i ymarfer, gallai canfyddiad o ragfarn godi pan fo gan y myfyriwr berthynas agos ag aelod o'r panel, neu os yw'r myfyriwr wedi gwneud cwyn ffurfiol am aelod o'r panel. Mewn achos addasrwydd i ymarfer, mae aelodau'r panel yn fwy tebygol o fod yn adnabod y myfyriwr dan sylw, oherwydd gall fod angen cynnwys aelodau staff sydd ag arbenigedd am y proffesiwn a'r cwrs. Fodd bynnag, rhaid i'r darparydd sicrhau cydbwysedd ymhlith aelodau'r panel, ac ni ddylai'r aelodau hynny fod wedi ymwneud yn flaenorol â'r pryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer. Dylai'r panel gynnwys rhai aelodau sy'n gwbl annibynnol, ac efallai y bydd angen i ddarparwyr wahodd staff o sefydliadau eraill. Dylai fod gan y myfyriwr yr hawl i wrthwynebu aelod o'r panel cyn i wybodaeth am ei achos gael ei datgelu i aelodau'r panel.

**90.** Gall amrywioldeb diwylliannol y panel fod yn ystyriaeth berthnasol mewn rhai achosion, ac mae'n bwysig o ran lleihau'r risg o ragfarn anymwybodol. Mae angen i'r darparydd ystyried aelodaeth paneli a chymryd camau i sicrhau nad yw'r rhai sy'n gyfrifol am ddod i benderfyniad wedi cael unrhyw gysylltiad blaenorol â'r mater, eu bod wedi derbyn hyfforddiant, a bod adnoddau a chefnogaeth briodol ar eu cyfer.

**91.** Mae gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer yn fewnol i ddarparydd, ac ni ddylent fod yn rhy ffurfiol. Nid yw'n angenrheidiol fel arfer i fyfyriwr na'r darparydd gael cynrychiolaeth gyfreithiol mewn gwrandawiad, ond mae'n arfer da i'r gweithdrefnau ganiatáu hyn lle mae rhesymau da dros wneud hynny.

**92.** Dylid cadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw gyfarfod neu wrandawiad, gan nodi pwy oedd yn bresennol, amlinelliad byr o'r achos a'r rhesymau dros y penderfyniadau a wnaed, gan gynnwys y canlyniad i'r myfyriwr a/neu unrhyw amodau a osodwyd. Dylai'r rhesymau a roddir fod yn ddigon manwl i alluogi'r myfyriwr i ddeall y rhesymau dros y penderfyniad. Nid yw'n angenrheidiol fel rheol gwneud recordiad llafar neu lunio trawsgrifiad llawn o'r cyfarfod neu'r gwrandawiad, ond gallai fod yn ddefnyddiol gwneud hynny, yn enwedig lle mae'r achos yn gymhleth neu os oes anghydfod sylweddol ynglŷn â'r ffeithiau. Dylai'r cofnod ysgrifenedig gynnwys manylion unrhyw benderfyniad disgyblu neu euogfarn droseddol a arweiniodd at bryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer.

## ASTUDIAETH ACHOS 8

### Gweithdrefnau ar gyfer addasrwydd i ymarfer

Cyhuddir myfyriwr nyrsio o ffugio ei gofnod presenoldeb tra ar leoliad gwaith. Mae'r darparydd yn ysgrifennu at y myfyriwr yn ei wahodd i gyfarfod gyda'i diwtor personol a Phennaeth yr Adran. Mae'r llythyr yn disgrifio'r honiad a sut mae'n berthnasol i'r fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth, ac yn esbonio'r broses addasrwydd i ymarfer. Mae'r llythyr yn dweud wrth y myfyriwr ble y gall gael gafael ar gymorth, a bod ganddo hawl i ddod â rhywun i'r cyfarfod gydag ef.

Mae'r myfyriwr yn gwadu'r honiad ar y dechrau, ond yna'n derbyn ei fod wedi copïo llofnod ei oruchwyliwr lleoliad i'r cofnod lleoliad ar un diwrnod pan oedd wedi anghofio cael y goruchwyliwr i'w lofnodi. Mae'r myfyriwr yn dangos iddo fynychu'r lleoliad y diwrnod hwnnw.

Mae'r darparydd yn gofyn i'r myfyriwr ysgrifennu aseiniad myfyriol i ddangos yr hyn y mae wedi'i ddysgu o'r profiad ac mae'r myfyriwr yn gwneud hynny. Mae'r darparydd o'r farn nad yw'r myfyriwr yn dangos digon o fewnwelediad yn yr aseiniad myfyriol o ran yr hyn y mae wedi'i wneud a pham ei fod yn anghywir.

Mae'r darparydd yn dweud wrth y myfyriwr y bydd yn cynnal gwrandawiad panel i ystyried a yw'n addas i ymarfer. Mae'r darparydd yn ysgrifennu at y myfyriwr gan ddisgrifio'r broses ar gyfer y gwrandawiad, pwy fydd ar y panel, pwy arall fydd yn bresennol a phwy all y myfyriwr ddod gydag ef.

## Perthnasedd canfyddiadau o gamymddwyn neu addasrwydd i ymarfer blaenorol

**93.** Mae'n rhesymol i ddarparydd ystyried record ddisgyblu ac addasrwydd i ymarfer blaenorol myfyriwr ac, os yw'n berthnasol, ei record iechyd, wrth benderfynu ar ei addasrwydd cyffredinol i ymarfer.

## ASTUDIAETH ACHOS 9
Pryderon blaenorol ynghylch addasrwydd i ymarfer

Mewn gwrandawiad addasrwydd i ymarfer, mae panel yn penderfynu bod myfyriwr meddygaeth ar ei bedwaredd flwyddyn wedi ymddwyn yn amhroffesiynol tuag at gleifion tra ar leoliad gwaith. Mae'r panel yn clywed bod y myfyriwr hefyd wedi ymddwyn yn amhroffesiynol tuag at gydweithwyr yn ystod dau leoliad yn ei drydedd flwyddyn. Arweiniodd y digwyddiadau cynharach at roi rhybudd ysgrifenedig i'r myfyriwr a chyfle i ddangos gwelliant yn ei ymddygiad. Mae'r panel addasrwydd i ymarfer yn penderfynu nad yw'r myfyriwr wedi mynd i'r afael â phryderon am ei ymddygiad nac wedi dangos unrhyw fewnwelediad. Mae effaith cyfunol y tri digwyddiad ar wahân yn golygu nad yw'r myfyriwr yn addas i ymarfer. Mae'r myfyriwr yn cael ei wahardd yn barhaol o'r rhaglen, ond rhoddir dyfarniad ymadael iddo.

## Deilliannau ac amodau a osodir gan baneli addasrwydd i ymarfer

**94.** Mae canfyddiad nad yw myfyriwr yn addas i ymarfer yn wahanol i ganfyddiad o gamymddwyn. Gall canfyddiad o gamymddwyn o dan broses ddisgyblu arwain at ystod o gosbau, tra gall canfyddiad nad yw myfyriwr yn addas i ymarfer arwain at dynnu'r myfyriwr oddi ar ei gwrs, heb fawr o siawns y bydd yn gallu derbyn hyfforddiant yn rhywle arall. Weithiau gall darparwyr atal myfyrwyr am gyfnod, neu roi cyfres o fesurau gwella cefnogol ar waith i roi cyfle i fyfyrwyr unioni'r materion a godwyd a dangos addasrwydd i ymarfer.

**95.** Pan fydd darparydd yn rhoi amodau ar waith y mae angen i'r myfyriwr eu bodloni, dylai'r amodau hynny fod yn gymesur, wedi'u hesbonio'n ofalus i'r myfyriwr, a bod iddynt ganlyniad clir a dangosadwy. Os yw'r amodau'n gysylltiedig ag iechyd y myfyriwr, dylai'r darparydd ddweud wrth y myfyriwr pa dystiolaeth y bydd ei hangen arno, er enghraifft adroddiad iechyd galwedigaethol boddhaol, cyn y gall ailafael yn ei astudiaethau.

**96.** Bydd y penderfyniad ynghylch pa gamau i'w cymryd pan ganfyddir bod addasrwydd myfyriwr i ymarfer wedi'i amharu fel arfer yn gofyn am ddyfarniad proffesiynol. Dylai'r panel esbonio'r rhesymau dros y camau y mae wedi penderfynu eu cymryd, yn enwedig mewn achosion lle mae i'r penderfyniad ddeilliannau difrifol a allai atal y myfyriwr rhag dechrau neu barhau â'r yrfa a fwriadwyd.

**97.** Cyn dod i benderfyniad ynghylch pa gamau y dylid eu cymryd, mae'n arfer da i'r panel ystyried pob opsiwn, gan ddechrau gyda'r lleiaf difrifol. Nid cosbi'r myfyriwr yw'r bwriad, ond yn hytrach gweithredu'n gymesur lle mae angen amddiffyn y cyhoedd neu i gynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn. Mae gan ddarparwyr gyfrifoldeb i egluro'r hyn y maent wedi penderfynu ei wneud, pam nad ystyrir bod camau adferol yn bosibl a sut mae'r penderfyniad yn gysylltiedig â'r gofynion proffesiynol perthnasol.

**98.** Dylai'r panel hefyd ystyried ffactorau lliniarol a'r rheiny sydd wedi gwaethygu'r sefyllfa, megis lefel y mewnwelediad y mae'r myfyriwr wedi'i dangos, tystiolaeth o arfer da, amgylchiadau personol a phryderon disgyblu blaenorol neu batrymau ymddygiad. Dylid rhoi cyfle i'r myfyriwr gyflwyno unrhyw ffactorau lliniarol cyn i'r panel benderfynu pa gamau y dylid eu cymryd.

**99.** Os daw'r darparydd i'r casgliad bod y myfyriwr yn anaddas i ymarfer ar hyn o bryd, ond y gallai ddod yn addas i ymarfer yn y dyfodol, dylai egluro i'r myfyriwr pa gamau y gall eu cymryd i ailafael yn ei astudiaethau.

**100.** Os daw'r darparydd i'r casgliad bod y myfyriwr yn anaddas i ymarfer ac y dylid terfynu ei astudiaethau, dylai'r darparydd ystyried a ellir rhoi dyfarniad ymadael i'r myfyriwr, neu a ellir ei drosglwyddo i raglen wahanol heb gofrestriad proffesiynol.

**101.** Efallai y bydd yn rhaid i'r darparydd gyflwyno adroddiad i'r corff proffesiynol neu'r rheolydd yn esbonio bod y myfyriwr wedi'i dynnu oddi ar ei gwrs oherwydd nad yw'n addas i ymarfer. Dylai'r darparydd egluro hyn i'r myfyriwr ac a fydd angen i'r myfyriwr ddatgelu'r canlyniad hefyd wrth wneud cais am gyrsiau rheoledig eraill.

**102.** Yn ystod camau olaf hyfforddiant proffesiynol, mae safonau ymddygiad myfyrwyr yn aml yn cael eu mesur yn erbyn yr hyn a ddisgwylid gan weithiwr proffesiynol sydd newydd gymhwyso. Mae llyfrgell Addasrwydd i Ymarfer ar-lein y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn darparu rhywfaint o arweiniad defnyddiol ynghylch y ffactorau a ystyrir wrth wneud penderfyniadau mewn achosion addasrwydd i ymarfer ar gyfer gweithwyr proffesiynol cymwysedig.

## ASTUDIAETH ACHOS 10

### Canlyniad y broses addasrwydd i ymarfer

Codir pryderon am ymddygiad myfyriwr ar gwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR). Dywed staff yr ysgol lle mae'r myfyriwr ar ymarfer dysgu fod y myfyriwr wedi colli ei dymer a gweiddi ar y plant sawl gwaith yn ystod y mis blaenorol. Mae'r myfyriwr yn cyfaddef i hyn ddigwydd, ond yn egluro fod yr ymddygiad yn anghyson â'i gymeriad fel arfer oherwydd ei fod yn sâl ar y pryd.

Mae'r myfyriwr yn darparu tystiolaeth fod ei amgylchiadau personol wedi bod yn anodd yn ddiweddar a'i fod yn derbyn triniaeth ar gyfer gorbryder ac iselder.

Mae'r panel yn penderfynu bod addasrwydd y myfyriwr i ymarfer wedi'i amharu, ac mae'n penderfynu atal y myfyriwr am flwyddyn, i'w alluogi i dderbyn triniaeth. Mae hyn oherwydd nad yw'r amgylchiadau lliniarol yn esgusodi'r ymddygiad, ond maent yn awgrymu efallai na fydd y myfyriwr yn anaddas i ymarfer fel athro'n barhaol. Mae'r panel yn gosod amodau ar drefniadau'r myfyriwr i ddychwelyd at ei gwrs, gan gynnwys bod yn rhaid iddo gael tystiolaeth feddygol yn dangos ei fod yn ddigon da i ailafael yn ei astudiaethau, ac y bydd y myfyriwr yn cael cyfnod o fonitro agos pan fydd ar leoliad ymarfer dysgu i sicrhau nad yw'r ymddygiad yn cael ei ailadrodd.

## Dod â'r cam ffurfiol i ben

**103.** Dylai'r darparydd ysgrifennu at y myfyriwr yn nodi canlyniad y cam ffurfiol, gan roi esboniad clir o'r rhesymau dros ei benderfyniad ac unrhyw amodau, a hynny mewn iaith syml. Bydd hyn yn helpu'r myfyriwr i benderfynu a ddylai apelio.

**104.** Dylai'r llythyr sy'n amlinellu'r penderfyniad hefyd roi gwybodaeth am y canlynol:

- hawl y myfyriwr i apelio;
- ar ba sail y gall y myfyriwr wneud hynny;
- y terfyn amser ar gyfer cyflwyno apêl;
- y weithdrefn briodol; a
- ble a sut i gael gafael ar gymorth.

**105.** Os nad yw'r myfyriwr yn cyflwyno apêl o fewn y terfyn amser ar gyfer gwneud hynny, dylai'r darparydd ddirwyn y mater i ben a dweud hynny wrth y myfyriwr mewn ysgrifen. Mae'n arfer da cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn ystod y cam hwn os yw'r myfyriwr yn gofyn am un, ond dylai'r llythyr egluro nad yw'r myfyriwr wedi cwblhau prosesau mewnol y darparydd. Mae SDA yn darparu canllawiau ar gyhoeddi Llythyrau Cwblhau Gweithdrefnau.

## Y cam apêl

**106.** Dylid caniatáu i'r myfyriwr apelio yn erbyn penderfyniad addasrwydd i ymarfer, gan gynnwys y camau y mae'r darparydd wedi penderfynu eu cymryd. Gall darparwyr ei gwneud yn ofynnol i fyfyriwr (neu ei gynrychiolydd) gyflwyno apêl yn ysgrifenedig, drwy e-bost neu ar-lein drwy lenwi'r ffurflen briodol. Mae'n arfer da nodi'r amodau ar gyfer cyflwyno apêl. Gallai'r amodau hynny gynnwys:

- na ddilynwyd y gweithdrefnau yn gywir;
- bod y sawl a wnaeth y penderfyniad wedi dod i benderfyniad afresymol;
- bod gan y myfyriwr dystiolaeth berthnasol newydd nad oedd yn gallu, am resymau dilys, ei darparu ynghynt yn y broses;
- bod rhagfarn neu ganfyddiad rhesymol o ragfarn yn ystod y weithdrefn; neu
- bod y camau y mae'r darparydd wedi penderfynu eu cymryd yn anghymesur, neu'n gamau na chaniateir o dan y gweithdrefnau.

**107.** Mae'n bosib y bydd y darparydd yn penderfynu gwrthod apêl heb ymgynnull panel apêl os nad yw'r apêl mae'r myfyriwr yn ei chyflwyno'n dod o fewn un o'r amodau a nodir yn ei weithdrefnau, neu os caiff ei chyflwyno ar ôl y terfyn amser heb reswm da. Ni ddylai'r person sy'n gwneud penderfyniad i beidio ag ymgynnull panel apêl fod wedi ymwneud yn flaenorol â phenderfyniad ynghylch addasrwydd y myfyriwr i ymarfer (neu, os yw'n berthnasol, mewn unrhyw achos disgyblu cysylltiedig). Mae hefyd yn bwysig bod y sawl sy'n gwneud y penderfyniad yn deall ffiniau ei rôl, ac yn cadw mewn cof y gwahaniaeth rhwng penderfynu a all fod gan y myfyriwr sail dros apêl, a phenderfynu a ddylid cadarnhau'r apêl y mae'r myfyriwr yn ei gwneud. Os gwrthodir yr apêl heb gael ei rhoi gerbron panel apêl, dylai'r darparydd gyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn ystod y cam hwn, gan egluro ei benderfyniad.

**108.** Mae'n bwysig bod yn glir ynghylch cwmpas apêl er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn deall ei phwrpas a pha mor bell mae'n mynd. Gellir ystyried apêl mewn gwrandawiad neu ar sail cyflwyniadau ysgrifenedig yn unig. Gall y cam apêl gynnwys adolygiad o'r cam ffurfiol neu ail-wrandawiad o'r achos o'r dechrau. Dylai'r gweithdrefnau ddweud a all y panel apêl wrthdroi canlyniad y cam ffurfiol, gan ei ddisodli â'i benderfyniad ei hun, neu a oes angen cyfeirio'r mater yn ôl i'r cam ffurfiol i'w ailystyried. Dylai'r panel apêl gynnwys aelodau nad ydynt wedi ymwneud â cham blaenorol. Pan fydd y panel apêl yn ail-wrando ar yr achos neu'n mynd ati i wneud ei benderfyniad ei hun, dylai gynnwys o leiaf un aelod o'r proffesiwn perthnasol. Mae'r adran Gweithdrefnau disgyblu oo'r Fframwaith Arfer Da yn darparu canllawiau arfer da pellach i ddarparwyr.

**109.** Dylid rhoi gwybodaeth i fyfyrwyr am sut i gael gafael ar gymorth a chyngor yn ystod y broses apelio.

## Dod â'r cam apêl i ben

**110.** Os na chaiff yr apêl ei chadarnhau, neu os na chaniateir iddi fynd rhagddi oherwydd yr amodau y seiliwyd yr apêl arnynt, dylid anfon Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau at y myfyriwr o fewn 28 diwrnod. Dylai hyn gynnwys esboniad o'r penderfyniad y daethpwyd iddo a'r rhesymau drosto, a hynny mewn iaith blaen. Bydd hyn o gymorth i'r myfyriwr benderfynu a yw'n bwriadu mynd â'r mater ymhellach.

**111.** Dylai'r penderfyniad hefyd roi gwybodaeth i'r myfyriwr am y canlynol:

- ei hawl i gyflwyno cwyn i SDA i'w hadolygu;
- y terfyn amser ar gyfer gwneud hynny; a
- ble a sut i gael gafael ar gyngor a chefnogaeth, yn enwedig lle mae'r darparydd wedi gosod amodau y mae'n rhaid i'r myfyriwr eu bodloni cyn y gall barhau â'i astudiaethau.

**112.** Mae angen cyflwyno unrhyw gŵyn i SDA o fewn 12 mis i ddyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau. Mae'n arfer da dweud wrth y myfyriwr am unrhyw resymau penodol pam y dylai ddod â'r mater i sylw SDA yn brydlon. Er enghraifft, gall fod na fydd cynnwys y cwrs yn gyfoes, mae'n bosib y bydd gan rai proffesiynau ddyddiad cau ar gyfer cofrestru neu gall fod yn anodd dod o hyd i leoliadau gwaith.

**113.** Pan fydd apêl yn cael ei chadarnhau, dylai'r darparydd gyflwyno'r canlyniad yn ysgrifenedig i'r myfyriwr, gan egluro pa gamau y bydd y darparydd yn eu cymryd. Mae'n arfer da cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau os yw'r myfyriwr yn gofyn am un. Os yw'r canlyniad yn cynnwys cyfeirio'r achos yn ôl i'r cam ffurfiol i'w ailystyried, mae'n arfer da sicrhau bod y mater yn cael ei ailystyried cyn gynted â phosibl a, lle bo hynny'n ymarferol, o fewn 90 diwrnod.

# Adolygiad allanol annibynnol (SDA)

**114.** Unwaith y bydd y cam apêl wedi'i gwblhau, gall y myfyriwr ofyn i SDA, y gwasanaeth ombwdsmon annibynnol, adolygu ei gŵyn ynglŷn â chanlyniad proses addasrwydd i ymarfer y darparydd. Mae angen cyflwyno'r gŵyn i SDA o fewn 12 mis i ddyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

# Adnoddau defnyddiol a chyfeiriadau at ddogfennau mewn troednodyn

**BCAP (Cymdeithas Gwnsela a Seicotherapi Prydain)**
https://www.bacp.co.uk/events-and-resources/ethics-and-standards/good-practice-in-action/

**Taflen gynghori ar Hawliau Anabledd:**
https://www.disabilityrightsuk.org/making-complaint

**Deddf Cydraddoldeb 2010:**
https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents

**Canllawiau'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol ar weithdrefnau addasrwydd i ymarfer myfyrwyr mewn ysgolion fferylliaeth:**
https://www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/document/guidance_on_student_fitness_to_practise_procedures_in_schools_of_pharmacy_july_2018_.pdf

**Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) - Welcomed and valued Cynnig cymorth i ddysgwyr anabl mewn addysg a hyfforddiant meddygaeth:**
https://www.gmc-uk.org/education/standards-guidance-and-curricula/guidance/welcomed-and-valued/welcomed-and-valued-supporting-disabled-learners-in-medical-education-and-training

**GMC & MSC - Ymddygiad proffesiynol ac addasrwydd i ymarfer: canllawiau ar gyfer ysgolion meddygaeth a'u myfyrwyr:**
https://www.gmc-uk.org/-/media/documents/professional-behaviour-and-fitness-to-practise-0816_pdf-66085925.pdf

**GMC - Rhoi cymorth i fyfyrwyr meddygaeth â chyflyrau iechyd meddwl:**
https://www.gmc-uk.org/education/standards-guidance-and-curricula/guidance/supporting-medical-students-with-mental-health-conditions

**Cyngor Proffesiynol Iechyd a Gofal (HCPC) - Addasrwydd i ymarfer:**
https://www.hcpc-uk.org/concerns/what-we-investigate/fitness-to-practise/

**Canllaw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar GDPR:**
https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/

**NMC - Nodau ac egwyddorion ar gyfer addasrwydd i ymarfer Cyfeirnod: FTP-1 Mae'r canllaw hwn yn dangos nodau ac egwyddorion addasrwydd i ymarfer:**
https://www.nmc.org.uk/ftp-library/understanding-fitness-to-practise/using-fitness-to-practise/

**NMC - Llyfrgell Addasrwydd i Ymarfer ar-lein:**
https://www.nmc.org.uk/ftp-library/

**Fframwaith Arfer Da SDA: Ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd:**
https://www.oiahe.org.uk/resources-and-publications/good-practice-framework/handling-complaints-and-academic-appeals/

**Fframwaith Arfer Da SDA: Gweithdrefnau disgyblu:**
https://www.oiahe.org.uk/media/2045/good-practice-framework-disciplinary-procedures-section.pdf

**Fframwaith Arfer Da SDA: Rhoi cymorth i fyfyrwyr anabl:**
https://www.oiahe.org.uk/media/1039/oia-good-practice-framework-supporting-disabled-students.pdf

**Canllawiau SDA ar Lythyrau Cwblhau Gweithdrefnau:**
https://www.oiahe.org.uk/media/2246/oia-cop-guidance-note-jan-2019.pdf

**RCVS - Cod Ymddygiad Proffesiynol gyfer Milfeddygon:**
https://www.rcvs.org.uk/setting-standards/advice-and-guidance/code-of-professional-conduct-for-veterinary-surgeons/

**Gwaith Cymdeithasol Lloegr:**
https://socialworkengland.org.uk/

**Gofal Cymdeithasol Cymru:**
https://socialcare.wales

**Cod Ansawdd ASA y DU ar gyfer Addysg Uwch Pennod B2: Recriwtio, Dethol a Derbyn i AU:**
https://www.qaa.ac.uk/docs/qaa/quality-code/chapter-b2_-recruitment_-selection-and-admission-to-higher-education.pdf?sfvrsn=6900f781_8

**Safonau Athrawon:**
https://www.gov.uk/government/publications/teachers-standards

**UKCP:**
https://www.psychotherapy.org.uk/registers-standards/standards-guidance-and-policies/

**Canllawiau Prifysgolion y DU a Pinsent Masons ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch: Sut i ddelio â chamymddwyn honedig myfyrwyr a allai hefyd fod yn drosedd:**
http://www.universitiesuk.ac.uk/policy-and-analysis/reports/Documents/2016/guidance-for-higher-education-institutions.pdf

**Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol er Addysg Uwch**

Second Floor
Abbey Wharf
57-75 Kings Road
Reading
RG1 3AB

Ffôn: 0118 959 9813
e-bost: enquiries@oiahe.org.uk
www.oiahe.org.uk